**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2006 Rhif (Cy. )

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan VIII o Atodlen 1 i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/666) ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC sy'n gosod yr egwyddorion sy'n llywodraethu trefniadaeth gwiriadau milfeddygol ar gynhyrchion sy'n dod i'r Gymuned o drydydd gwledydd (OJ Rhif. L24, 30.1.98, t.9).

Diwygir Rhan VIII o Atodlen 1 er mwyn rhoi effaith i'r cyfyngiadau ar fewnforio cynhyrchion sy'n deillio o adar a geir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2006/7/EC, sy'n ymwneud â mesurau gwarchod penodol mewn perthynas â mewnforio plu o drydydd gwledydd penodol (OJ Rhif L5, 10.01.2006, t.17) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2006/183/EC (OJ Rhif L65, 7.3.2006, t.49). Mewnosodir cyfeiriadau at Benderfyniad y Comisiwn 2006/7/EC (fel y'i diwygiwyd) ym mharagraff 21 o Ran VIII o Atodlen 1.

Mae Atodlen 1 i Reoliadau 2005 yn rhestru offerynnau'r Gymuned sy'n gosod amodau ar gyfer mewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'r Gymuned. Mae Rheoliad 15 o Reoliadau 2005 yn gwahardd dod â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i Gymru os nad ydynt yn cydymffurfio â'r amodau mewnforio hyn.

Ni chafodd Arfarniad Rheoliadol ei baratoi ar gyfer y rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif (Cy. )

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *16 Mai 2006* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mai 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi([1]) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972([2]) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin Y Gymuned Ewropeaidd.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn—

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 31 Mai 2006.

**Diwygiadau i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005**

**2.** —(1) Diwygir Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005([3]) yn unol â pharagraff (2).

(2) Ar ôl paragraff 20 yn Rhan VIII o Atodlen 1 mewnosoder —

(1) O.S. 2005/2766.
(2) 1972 p. 68.
(3) O.S. 2005/666 (Cy.56).

“**21.** Penderfyniad y Comisiwn 2006/7/EC, sy’n ymwneud â mesurau gwarchod penodol mewn perthynas â mewnforio plu o drydydd gwledydd penodol (OJ Rhif L5, 10.01.2006, t.17) fel y’i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn (OJ Rhif L65, 7.3.2006, t.49).”

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Deddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

Dyddiad
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p.38.